



Eich cyf/Your ref ER  
Ein cyf/Our ref EM/04418/22

Y Cyng. Elwyn Jones  
Cadeirydd Cyngor Gwynedd  
Cyngor Gwynedd

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

16 Ionawr 2023

Annwyl Gyng. Elwyn Jones,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 15 Rhagfyr 2022, ynghylch y cynigion gwella gwasanaeth sy'n cael eu datblygu gan Elusen Ambiwylans Awyr Cymru a Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS) Cymru.

Rwy'n cydnabod y bartneriaeth hynod werthfawr sy'n bodoli rhwng Elusen Ambiwylans Awyr Cymru ac EMRTS wrth achub bywydau a sicrhau'r canlyniadau gorau yma yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn gwneud gwahaniaeth enfawr a chadarnhaol i ganlyniadau'r rheini ym mhob rhan o Gymru sydd â'r angen clinigol mwyaf.

Mae gwasanaeth EMRTS yn cael ei gomisiynu gan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys sydd wedi rhoi cyfarwyddyd i'r Prif Gomisiynydd Gwasanaeth Ambiwylans i gynnal adolygiad o'r gwasanaeth presennol ar ei ran.

Mae'r Comisiynydd wedi lansio proses ymgysylltu ffurfiol yn ddiweddar er mwyn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu opsiynau i'w hystyried gan y Pwyllgor. Y bwriad yw gwella'r model gwasanaeth presennol, er mwyn sicrhau bod mwy o bobl sydd mewn cyflwr sy'n peryglu eu bywydau, ac sy'n addas i gael ymateb gan EMRTS, yn cael yr ymateb priodol. Bydd y broses ymgysylltu a'r adolygiad troswaol yn cyflawni'r canlynol:

- sicrhau bod ystyriaeth yn canolbwyntio ar y pethau iawn, gan wneud yn siŵr bod sylwadau a phryderon y prif randdeiliaid yn cael eu deall yn llawn;
- helpu'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys i benderfynu ar y cam nesaf, gan gynnwys datblygu opsiynau i gefnogi'r gwaith o wella'r gwasanaeth a chynyddu nifer y cleifion sy'n cael ymateb gan EMRTS;
- ystyried a oes angen newid safleoedd gweithredu ai peidio er mwyn cyflawni'r nod hwn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mwyn egluro, ni chafodd unrhyw benderfyniad ei wneud. Mae proses ar gyfer gwerthuso opsiynau'n drylwyr yn cael ei pharatoi gan y Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwylans fel rhan o'r broses ymgysylltu er mwyn sicrhau bod y broses benderfynu'n arwain at y penderfyniad gorau ynghylch dyfodol gwasanaeth EMRTS yng Nghymru.

Cafwyd cadarnhad y bydd y broses ymgysylltu ffurfiol yn cymryd o leiaf 8 wythnos, ac y bydd yn gynhwysfawr er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael cyfle i fynegi barn. Gallwch gyfrannu at y broses ymgysylltu drwy fynd i'r dudalen we ganlynol:-

[Adolygiad Gwasanaeth GATMB - Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys \(gig.cymru\)](#)

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

**Eluned Morgan AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services